1 Bodolaeth Duw a natur Duw. Mae bodolaeth Duw yn amlwg i fi, fel Duw'r cychwyn cyntaf a Duw'r peirianydd. Mae gwyddoniaeth yn ymgais (diffygiol iawn) i geisio deall agweddau o'r agwedd yma o Dduw. Mae Duw (ymhell) tu hwnt i'n deall ni.

2 Mae'n wyrth mod i'n bodoli ac yn gallu rhesymegu o gwbl, a gweld y byd. Rwyn rhyfeddod yn fy hun. Dwi ddim yn gallu dechrau esbonio ffordd mae hyn yn bosib. Mae'n wyrth. Rwyn rhan o waith Duw.

3 O'm cwmpas mae pobl jyst fel fi. Mae'r bobl 'ma yn edrych fel fi, ac yn ymddwyn fel fi. Mae'n weddol amlwg felly bod pob un o'r bobl 'ma yn wyrthiau hefyd (neu o leiaf does dim tystiolaeth gyda fi i brofi'n wahanol). A dweud y gwir, gallai dyn ddweud ein bod ni'n rhan o'r un wyrth. Felly debyg pob anifail a phlanhigyn, a phopeth arall yn y byd, byw ai beidio. Rŷn ni gyd yn rhan o waith Duw.

4 Mae rhyngweithio â'r byd felly fel rhyngweithio gyda pethau drudfawr ofnadwy sydd i bob pwrpas yn ran ohonof i fy hunan, ac yn rhan o waith Duw. Rhaid i fi barchu a charu popeth fel ryf i'n caru fi fy hunan, a charu Duw. Mae achosi dolur neu niwed i arall fel niweidio fi fy hunan, niweidio'r system wyrthiol rŷn ni'n rhan ohono, niweidio Duw.

5 Mae pawb yn rhydd i feddwl fel y mynant, ond fe fydda i byth yn gallu deall nhw (dwi ddim yn gallu deall fi fy hunan!) Ond os ei bod yn bosib bod jyst un person arall yn y byd yn meddwl fel fi, mae'n rhaid i fi drin pawb yr un peth jyst rhag ofn i fi ddod o hyd iddo/iddi. Canfod Duw mewn person arall.

6 Ac os bod yr un person yna mewn traferthion neu "ar goll" mewn rhyw ystyr, rhaid i fi fod yn hapus i'w helpu, os yw'n dymuno cymorth.

7 Maen hollol amhosibl i ni fyw heb achosi dolur a niwed ir byd o'n cwmpas. Maen rhaid i ni "bechu", i fwyta, i anadlu, i oroesi tywydd garw. Rŷn nin lladd anifeiliaid a phlanhigion yn anochel. Rhaid gwneud hyn i ryw raddau. Ond, gan fod daliadau bobl arall yn wahanol, byddwn ni'n "pechu" rhai drwy'r amser heb fwriad. Ac fe fyddwn nin gwneud pethe twp yn hunain hefyd, â bwriad ai beidio. Mae hwn yn achosi loes i arall, ac mae'n naturiol i ni ddyfaru am hyn, i ofyn am faddeuant.

8 Yr unig ffordd o gael maddeuant yw ceisio maddeuant "y system gyfan"; hwn sy'n bwysig, nid maddeuant person ffaeledig arall. Ond rŷn ni ein hunain hefyd yn ffaeledig. Felly rhaid ceisio maddeuant o rywle / gan rhywbeth/rhywun sydd y "tu hwnt" i'r byd materol. Ceisio maddeuant gan y ffurf ohonoch chi eich hunan sydd orau posib, y gorau allwch chi fod. Anelu at y gorau allwn ni gyd fod.